# Cefnogi dilyniant dysgwyr

Angela Lewis, Pennaeth Addysg Uwch, Coleg Gwent

Lisa Davies, Rheolwr Partneriaethau, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Darren Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaethau Strategol, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

## Cefndir

Mae'r Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol wedi'i Gwella (NEPE) yn fenter arloesol a gynlluniwyd ar y cyd i gynorthwyo dysgwyr addysg bellach (AB) Cymru i symud ymlaen i addysg uwch (AU) neu gyflogaeth. Mae NEPE wedi'i greu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac mae'n alinio â Chynllun Adnewyddu a Diwygio Ôl-16 Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o wella profiadau addysgol a deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Yn ganolog i'r rhaglen mae'r nod o gefnogi dilyniant dysgwyr, gan helpu dysgwyr i ffynnu trwy gydol eu taith academaidd.

Mae NEPE yn rhoi cydweithio ac arloesedd wrth wraidd ei waith, gan bartneru â chwe choleg AB ledled Cymru: Coleg Pen-y-bont, Coleg Cambria, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwent, a Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r rhaglen yn manteisio ar blatfform *OpenLearn* y Brifysgol Agored, gan roi mynediad i ddysgwyr at gyfoeth o adnoddau hunanastudio a gweithdai rhithwir i wella galluoedd academaidd, hybu datblygiad personol, a chefnogi llesiant cyffredinol.

## Ymagwedd Coleg Gwent at NEPE

Mae'r astudiaeth achos hon yn archwilio dull Coleg Gwent o gyflwyno NEPE, sut y cafodd y rhaglen ei theilwra i feithrin dilyniant dysgwyr a'r effaith a'r manteision i gyfranogwyr.

Croesawodd Coleg Gwent NEPE fel cyfle i ategu a gwella eu cyrsiau AU cyfredol. Gan ganolbwyntio ar drawsnewid a dilyniant, sicrhaodd y Coleg fod dysgwyr yn cael eu cefnogi yn ystod pob cam o'u taith academaidd. Gan integreiddio adnoddau *OpenLearn* i mewn i gwricwla, crëwyd dull cyfannol o ddatblygu dysgwyr, gan fynd i'r afael â sgiliau academaidd a llesiant personol i gynorthwyo dilyniant myfyrwyr.

Darparwyd cymorth wedi'i dargedu ar wahanol gamau o daith AU dysgwyr o Lefel 4 i 6. Galluogodd hyn ddysgwyr i lywio'r newid i AU yn llwyddiannus, symud ymlaen trwy eu hastudiaethau, a chyflawni deilliannau cadarnhaol o ran datblygiad academaidd a phersonol.

**Categorïau Allweddol ac Ymagwedd**

Dynododd Coleg Gwent dri cham allweddol o fewn NEPE, i gefnogi dysgwyr ar wahanol adegau yn eu cynnydd academaidd:

1. **Ydych chi'n Barod i Brifysgol?** Roedd y cam hwn yn darparu ymgeiswyr AU â'r adnoddau *OpenLearn* canlynol cyn cofrestru, â'r nod o gynorthwyo cyfnod pontio llwyddiannus:
   - Ymarfer Corff ac Iechyd Meddwl
   - Ysgrifennu'n Feirniadol a Strwythuro Eich Traethawd – Sgiliau Astudio Academaidd
   - Fy Ngwaith Fy Hun – Archwilio Uniondeb Academaidd
   - Llwyddo Gyda Dysgu.
2. Helpodd adnoddau **Ar y Trywydd Iawn ac yn Ffynnu** ddysgwyr i deimlo'n barod ac yn hyderus wrth iddynt ddechrau astudio Lefel 4, yn ogystal â darparu cefnogaeth barhaus i ddysgwyr, gan sicrhau eu bod yn aros ar y trywydd iawn ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus trwy eu hastudiaethau. Roedd yr adnoddau *OpenLearn* yn cynnwys:
   - Ymarfer Corff ac Iechyd Meddwl
   - Rheoli Amser ac Astudio
   - Academi Arian MSE
   - Cyfathrebu Effeithiol yn y Gweithle
3. Trydydd cam yr ymagwedd hon yw paratoi dysgwyr Lefel 5 a 6 ar gyfer y cam nesaf o astudiaeth bellach neu gyflogaeth. Helpodd adnoddau **Camau Nesaf i Lwyddiant** ddysgwyr i ddatblygu sgiliau academaidd hanfodol a hyrwyddo llesiant personol, gan gynorthwyo eu cynnydd academaidd a phroffesiynol hirdymor. Roedd yr adnoddau'n cynnwys:
   - Ymarfer Corff ac Iechyd Meddwl
   - Pwysigrwydd Sgiliau Rhyngbersonol
   - Sgyrsiau a Chyfweliadau
   - Brandio Personol ar gyfer Llwyddiant Gyrfa.

   Helpodd y cam olaf hwn ddysgwyr i feithrin sgiliau hanfodol ar gyfer y newid i gyflogaeth neu astudiaeth academaidd lefel uwch, gan sicrhau eu bod wedi paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf.

**Strwythurau Cymorth a Gweithredu**

Creodd Coleg Gwent ddwy rôl newydd ar gyfer Hyfforddwyr Cynnydd i sicrhau darpariaeth NEPE effeithiol. Roedd yr hyfforddwyr hyn yn hanfodol wrth gynorthwyo dysgwyr, codi

ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael, a chynnig cefnogaeth unigol ac ar gyfer grwpiau. Fe wnaethon nhw hefyd ddatblygu canllawiau defnyddwyr i helpu dysgwyr a staff i lywio'r platfform *OpenLearn*, gan wella profiad y myfyrwyr ymhellach.

Lansiodd Coleg Gwent y rhaglen ym mis Ebrill 2023, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ymgeiswyr AU 2023-2024. Cyflwynwyd dysgwyr oedd yn dychwelyd i'r rhaglen yn ystod eu cyfnod sefydlu ym mis Medi 2023. Cyfranogodd cyfanswm o 403 o ddysgwyr AU yng Ngholeg Gwent yn NEPE, gan elwa o adnoddau wedi'u teilwra'n benodol a'u helpodd i symud ymlaen trwy bob cam o'u taith academaidd.

## Cyflawniadau ac Effaith

Daeth manteision sylweddol i ddysgwyr a staff yng Ngholeg Gwent yn sgil NEPE. Mae cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra yn ystod pob cam allweddol yn y daith AU wedi arwain at well sgiliau academaidd, cynnydd mewn cyflogadwyedd a llesiant, yn ogystal â chryfhau datblygiad personol a gwydnwch.

- **Gwell Sgiliau Academaidd**: Nododd dysgwyr well sgiliau rhifedd a llythrennedd, gydag adnoddau *OpenLearn* yn eu helpu i baratoi ar gyfer heriau academaidd astudiaethau AU.
- **Cynnydd mewn Cyflogadwyedd a Llesiant**: Datblygodd dysgwyr sgiliau hanfodol ar gyfer eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, fel rheoli amser, iechyd meddwl a datblygu gyrfa.
- **Datblygiad Personol a Gwydnwch**: Roedd y rhaglen o gymorth i ddysgwyr ddatblygu hunanymwybyddiaeth, gwydnwch a hyder, sy'n hanfodol ar gyfer dilyniant trwy AU ac ymlaen i'r gweithle.

Trwy'r ymagwedd gynhwysfawr hon, nid yn unig y mae Coleg Gwent wedi cefnogi dilyniant myfyrwyr ond hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol amgylchedd dysgu mwy cynhwysol a chefnogol.

Canfu staff yng Ngholeg Gwent fod *OpenLearn* yn declyn gwerthfawr, gan wella'r cwricwlwm a darparu deunyddiau addysgu o ansawdd uchel. Arweiniodd cyfranogiad y Coleg yn NEPE hefyd at ddilysu llwyddiannus gan gorff proffesiynol, oedd yn dangos ymhellach effaith y rhaglen ar ddatblygiad sefydliadol.

‘Mae’r gwasanaeth yn hanfodol i’r dysgwyr, ac mae’n lle diogel iddyn nhw ddatblygu a mireinio eu sgiliau yn academaidd ac yn gymdeithasol.’
Karina Geddes, Tiwtor

‘Mae wedi bod yn bleser cyflwyno’r prosiect hwn; oherwydd yr ystod eang o bynciau y mae’n ymwneud â nhw. Dwi'n teimlo bod yna rywbeth ar gael ar gyfer pob cwrs rydyn ni'n ei gyflwyno yng Ngholeg Gwent.’
Jessica Mckie, Tiwtor

‘Mae prosiect NEPE yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sylfaen wybodaeth o amgylch cyflogadwyedd yn ogystal elfennau sy’n perthyn yn benodol i’r pwnc.’
Hayley Jenkins, Tiwtor

‘Bydd prosiect NEPE yn parhau i ddarparu ein dysgwyr â’r sgiliau hanfodol sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae hwn yn adnodd cadarnhaol iawn i ni y gellir ei gysylltu â’n modiwlau a safonau diwydiannau; diolch.’
Ginnie Bateman, Tiwtor

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research